
# Cynllun Strategol Gwm Elan


## 2024-2030




Ymddiriedolaeth Cwm Elan

Elan Valley Trust

# Ystâd Gwm Elan







## Amdanom

Sefydlwyd Ystâd Gwm Elan gan Adran Ddŵr Corfforaeth Birmingham o ganlyniad i Ddeddfau Dŵr 1892 ac 1896. Heddiw, darperir dŵr o chwe chronfa wedi'u lleoli yn nyffrynnoedd afonydd Claerwen ac Elan. Maent yn darparu cyflenwad uniongyrchol o uchafswm o 320 miliwn o litrau yn ddyddiol i Ddŵr Hafren Trent trwy lif disgyrchiant traphont ddŵr i Gronfa Frankley i'r gorllewin o Birmingham. At hynny, rhyddheir dŵr i Afon Elan, llednant i Afon Gwy, er mwyn cynyddu llif honno yn ystod cyfnodau sych sy'n effeithio ar Lydbrook a Mynwy. O ganlyniad, mae'r Cwm yn darparu dŵr yfed ar gyfer hyd at 3 miliwn o gwsmeriaid Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW) a Dŵr Hafren Trent.

Sefydlwyd Ymddiriedolaeth Dŵr Cymru Elan (a adwaenir yn gyffredin fel Ymddiriedolaeth Gwm Elan) yn Hydref 1989 wrth i Ddŵr Cymru Welsh Water gael ei phreifateiddio. Mae'n Ymddiriedolaeth Elusennol, gyda'r bwriad o sicrhau rheolaeth gynaliadwy un o'r ystadau dŵr fwyaf yng Nghymru a Lloegr er mwyn darparu cyfres o Amcanion Strategol.



## Ffeithiau a ffigyrau ar gyfer 20,600 hectar Cwm Elan



17,000 hectar breiniedig i Ymddiriedolaeth Gwm Elan

1,200 hectar wedi'u dargadw gan y DCWW (Coedwigaeth a Chronfeydd)

2,000 hectar Tir Comin Cwmdauddwr

14,500 hectar o ffermydd tenantiaid

2,850 hectar o ffermydd mewn llaw EVT

500 hectar o goetir

606 hectar o ddŵr agored

19 o dai ar gyfer trigolion Cwm Elan, 23 o ffermdai / tyddynnod, 4 bwthyn ymwelwyr, byncws a dau bothi.

28 o ddaliadau ffermydd â thenantiaid ynghyd âg 8 o ddaliadau ym meddiant yr Ymddiriedolaeth.
Mae'n gartref i dros 20,000 o ddefaid, 50 o geffylau a 100 o dda byw.

5 hen fwynglawdd plwm a sinc.
Mwynglawdd Cwm Elan yw'r fwynglawdd sydd wedi ei chadw yn y cyflwr gorau ym Mhowys.

34 o adeiladau rhestredig
39 o Henebion Rhestredig.

6 argae gyda chyfanswm gyfunol o 99,499 miliwn litr o ddŵr.
Darpariaeth dŵr i dros 3 miliwn o bobl, a'r dŵr a ryddheir yn cynhyrchu 4.2 megawatt o drydan.

Mynediad cyhoeddus hygyrch ar droed i'r rhan fwyaf o dir mynyddig agored yr Ystâd.
100 cilometr o ffyrdd hawliau tramwy dynodedig gan gynnwys llwybyr troed Canol Oesol y Mynachod (Monks Trod).
Mae Llwybr troed Cwm Elan yn dilyn ffordd graddiant isel hen Reilffordd Gwm Elan.

12 Safle o Ddiddordeb Wyddonol Arbennig ynghyd â Gwarchodfa Natur Genedlaethol Claerwen.
Dwy Ardal o Gadwriaeth Arbennig yn gorchuddio 9,049 hectar o goetir a chors.
Elenydd – Maellen, Ardal Arbennig o Gadwriaeth ar gyfer adar.

20 rhywogaeth o famaliaid a 21 o rywogaethau adar sy'n bridio'n rheolaidd ar yr Ystâd sydd ar y rhestr "coch a melyn" (h.y. prinhau).

Gweirgloddiau ucheldirol asidig niwtral yn gyfoethog o rywogaethau, gan gynnwys Gweirglodd Goronog Maesyfed.
Mwsoglau o bwys cenedlaethol, llysiau'r afu, cennau, rhedyn, ffyngau yn ogystal â 7 rywogaeth o degeirianau.

Y Parc Wybren Dywyll Rhyngwladol cyntaf yng Nghymru.

## Amcanion Strategol Ymddiriedolaeth Gwm Elan

***Amcanion strategol Ymddiriedolaeth Gwm Elan yw i reoli'r Ystâd ynghyd â buddiannau eraill yr Ymddiriedolaeth mewn ffyrdd sy'n:***

Darparu stiwardiaeth gyfrifol o Ystâd Gwm Elan er budd y cyhoedd a'r gymuned leol gan ddiogelu ei threftadaeth, ei natur a'i hadnoddau naturiol.



Hwyluso mynediad cyhoeddus i'r Ystâd ar gyfer llesiant, iechyd ac adloniant corfforol.



Gwneud cyfraniad cadarnhaol wrth fynd i'r afael â heriau deublyg newid hinsawdd a cholled bioamrywiaeth.



Hyrwyddo defnydd o'r Ystâd ar gyfer amcanion elusennol gan gynnwys lles gymdeithasol, addysg, hyfforddiant ac astudiaeth.

## Amcan Strategol 1: Adnoddau Naturiol

*‘Tirwedd cyfoethog mewn natur gyda chynefinoedd a rhywogaethau sy’n ffyniannus”*

***Ein hamcanion yw:***

1. Cyfrannu’n gadarnhaol at ansawdd a sylwedd y dalgylch ddŵr.

2. Hybu tirwedd cyfoethog mewn natur:
   - Cynefinoedd mewn cyflwr da
   - Diogelu ffyniant bywyd gwyllt cynhenid
   - Safleodd dynodedig mewn cyflwr ffafriol

3. Bod yn uchelgeisiol wrth liniaru effeithiau newid hinsawdd

4. Gwerthfawrogi ein tirwedd hanesyddol ond caniatáu newid sy’n arwain at welliannau cyffredinol

5. Magu cyfleuon i gynnal cymuned leol fywiog.

6. Creu incwm hyfyw i’r elusen dros yr hir dymor.

***Mewn pum mlynedd fe fyddwn yn llywio ein Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) tuag at gyflwr ffafriol ac fe fyddwn yn arbrofi er mwyn sefydlu:***

- Cydbwysedd gostyngiad carbon ac adferiad natur
- Ffyrdd effeithiol o gyrraedd ansawdd ffafriol Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA).
- Yr arfer orau tuag at wella cynefin

***Ffermydd mewn-llaw***

- Adfer mawn
- Sicrhau canlyniadau cynllun ecolegol
- Gweithredu cynlluniau rheolaeth / arolygon / adolygiadau cwmpasu
- Datblygu ein systemau pori gwartheg
- Gweithredu Cynllun Ffermio Cynaliadwy

***Yr Ystâd Ehangach***

- Adfer mawn
- Partneriaeth gyda thenantiaid ffermydd
- Partneriaeth gyda’n rhanddeiliaid
- Lleihau effaith moduron gyriant pedair olwyn mewn ardaloedd sensitif
- Gweithredu strategaeth coetir yr Ystâd

## Amcan Strategol 2 : Pobl

*'Lle gwych i bobl i fyw, gweithio ac ymweld"*

***Ein hamcanion yw:***

1. Hybu cyfleon i gynnal cymuned leol fywiog
2. Galluogi pobl i ddefnyddio cyfleon hamdden sy'n hybu iechyd a llesiant
3. Galluogi pobl i astudio, gwerthfawrogi, ymwneud â natur a threftadaeth Cwm Elan
4. Hybu defnydd o'r Ystâd at ddibenion lles cymdeithasol
5. Rheoli mynediad i'r Ystâd mewn ffyrdd sy'n gwarchod ei ansawdd arbennig ac annog pobl i gael mynediad i'r Ystâd mewn ffyrdd cyfrifol a diogel

***Mewn pum mlynedd fe fydd gennym gynlluniau a phrosiectau mewn lle i:***

- Hyrwyddo mynediad cyfrifol
- Darparu ymwybyddiaeth ehangach o dreftadaeth yr Ystâd
- Cynnal a chryfhau cymuned Elan ynghyd â hygyrchedd

Darparu cyfleon i wirfoddolwyr i chwarae eu rhan mewn prosiectau natur a chadwriaeth

Datblygu prosiect i ddeall a gwarchod treftadaeth yr Ystâd

Gwarchod a hyrwyddo ein statws wybren dywyll

Cefnogi mynediad grwpiau penodedig i'r Ystâd

Darparu cyfleon i bobl i fyw, gweithio ac amaethu ar yr Ystâd

Datblygu model addysg (dyddiau/ sesiynau hyfforddi, ysgolion, prentisiaethau/hyfforddeion)

## Amcan Strategol 3 : Isadeiledd yr Ystâd

*'Sicrhau'r Ystâd at y dyfodol"*

***Ein hamcanion yw:***

Sicrhau bod yr isadeiledd ar yr Ystâd yn addas i bwrpas, yn cael ei gynnal yn gost effeithiol ac yn gynaliadwy

Rhoi ystyriaeth i ddatblygu cymuned leol gref wrth ddarparu tai sy'n cael eu gosod ar rent

Cydnabod effeithiau'r isadeiledd ar dreftadaeth Gwm Elan, gan ystyried dyfodol yr asedau

Sicrhau fframwaith gadarn ar gyfer gwerthuso cynigion o newidiadau neu ddatblygiadau isadeiledd

***Mewn pum mlynedd fe fydd gennym gynlluniau a phrosiectau mewn lle i :***

- Arolygu ein pontydd, adeiladau a ffyrdd yn rheolaidd
- Buddsoddi mewn gwelliant eiddo
- Hwyluso lleoli mastiau addas ac effeithiol ar gyfer ffonau symudol
- Darparu ffynonellau da o ynni adnewyddol yn ein heiddo
- Hyrwyddo ffynonellau ynni adnewyddol mewn partneriaeth â thenantiaid a rhanddeiliaid

Arolygu ffyrdd ac isadeiledd

Cynyddu ynni adnewyddol i gartrefi

Gwella effeithlonrwydd ynni ein heiddo

Sicrhau diogelwch eiddo segur

Datblygu eiddo er mwyn hyrwyddo ein cynlluniau a'n dyheuadau

## Amcan Strategol 4: Digarboni

*'Cymryd camau i leihau ein heffaith ar yr hinsawdd"*

***Ein hamcanion yw:***

1. Gosod targedau uchelgeisiol ar gyfer gweithredu mesurau i leihau ac addasu, megis:

- Lleihau defnydd o danwydd ffosil yn ein gweithgareddau
- Atafaeliad carbon a'i storio ar y tir yr ydym yn ei reoli
- Cynhyrchu ynni adnewyddol wrth i gyfleon godi
- Mesurau i reoli'r peryglon yn sgîl newid hinsawdd

2. Ystyried yr effaith ar dreftadaeth a natur wrth werthuso lliniariad hinsawdd a chynigion i addasu

3. Hyrwyddo cyfleon a gwaith gyda thenantiaid a phartneriaid eraill i gefnogi cyrchnodau hinsawdd ynghyd â chynaliadwyedd

***Erbyn 2030 fe fyddwn wedi cymryd camau allweddol tuag at weithredu strategaeth digarboni:***

- Sicrhau bod ein gweithgareddau yn cyrraedd net-sero
- Datblygu a gweithredu cynllun carbon yn y tirwedd
- Rheolaeth garbon mewn cynefinoedd
- Cynhyrchu ynni adnewyddol

Llunio strategaeth garbon (cyrchnodau / cynllun gwaith)

Adeiladau – rhaglen atgyweirio gan adolygu ffynonellau ynni/gwres

Cyfnewid moduron, pan fo angen, am rai trydan lle'n bosib (neu dechnoleg amgen).

Mawn:

- Asesu cyfleon
- Ymchwil i allyriadau
- Blaenoriaethu a chynllunio gwaith
- Gweithredu atgyweiriadau

Ystyried allyriadau methan gyda ffermio mewn llaw (iechyd stoc, stoc iawn yn y lle iawn)

Cynyddu graddfa ynni adnewyddadwy ar y stad

Ymchwilio i botensial y farchnad garbon

## Amcan Strategol 5 : Trefniadaeth Gref ac Effeithiol

*'Yn gyllidol gynaliadwy ac wedi ei reoli'n dda"*

***Ein hamcanion yw:***

1. Sicrhau sylfaen gyllidol gadarn ar gyfer yr elusen dros yr hir dymor

2. Defnyddio ffynonellau incwm sy'n galluogi cyrraedd ein hamcanion strategol

3. Sicrhau bod model gweithredol effeithiol ac effeithlon yn cael ei gynnal a'i reoli'n barhaus

4. Gwerthuso ein defnydd o asedau er mwyn creu incwm sy'n hyrwyddo gwireddu ein hamcanion

Adolygu systemau amaethu mewn llaw:

- Cydbwysedd cost effeithlonrwydd ac effeithiau ar natur
- Gwerthuso cynlluniau amaeth-amgylcheddol
- Adolygu ein daliadau mewn llaw ac ystyried buddsoddiadau tir y dyfodol

Asesu potensial ffyrdd eraill o greu ynni adnewyddol fel ffynhonell incwm

Datblygu a chyflwyno cynllun ariannu

Adolygu ein rhenti a'n tenantiaethau

Adolygu ein gweithredoedd er mwyn sicrhau gwerth am arian.

Adolygu ein hasedau a'n buddsoddiadau gan sicrhau eu bod yn ateb gofynion ein hamcanion strategol

Datblygu a gweithredu cynllun rheolaeth asedau (ailosod/adnewyddu).

Archwilio ffynonellau incwm amgen

## Amcan Strategol 6: Trefniadaeth wedi ei rheoli'n dda

*'Lle gwych i bobl i fyw, gweithio ac ymweld"*

***Ein hamcanion yw:***

1. Sicrhau bod y drefniadaeth yn cael ei rheoli'n effeithiol

2. Sefydlu'n hunain fel cyflogwr o ddewis

3. Sicrhau bod staff yn cael eu grymuso i gyflawni yn gyson â'n hamcanion strategol

4. Meddu ar werthoedd trefniadaethol sy'n gyson ac yn unol â'n hamcanion elusennol

***Byddwn yn cynnal ystrwythur rheoli effeithiol gan gydymffurfio â'r safonau priodol gan fod yn le gwych i weithio***

Datblygu ein gwerthoedd trefniadaethol a'u cynnwys oddi mewn i'n hymarfer gwaith

Adolygu a datblygu ein polisïau

Rhaglen ddatblygu rheolaeth

Adolygu a datblygu ein hymarfer cyflogaeth a'n polisîau er mwyn cyfoethogi llesiant ac effeithiolrwydd staff



01597 810449

info@elanvalleytrust.org

Ymddiriedolaeth Cwm Elan
Elan Valley Trust

Cwm Elan Valley

IDA

ELAN Valley DARK SKY PARK

MYNYDDOEDD CAMBRIAN MOUNTAINS

Swyddfa Stad Elan, Pentref Elan, Rhaeadr Gwy, Powys LD6 5HP

https://elanvalley.org.uk/cy